**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30a.m. ddydd Iau 8 Gorffennaf 2021 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
Victoria Liverpool
Arwel Ellis Owen
Liam Powell
Matthew Peake
Victoria Provis
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
James Barrow
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Gyda thristwch nododd y Cynghorau farwolaeth sydyn Mark Thomas, Swyddog Gyrfaoedd y Brifysgol, Gareth Pierce, cyn aelod o Uwch Reolwyr y Brifysgol, a'r Arglwydd Elystan Morgan, Cadeirydd Ymddiriedolaeth PC.

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.29<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb a chroesawu aelodau newydd | DERBYNIODD y Cynghorau ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Conny Matera Rogers, yr Athro Dylan Jones a Gavin Bessant.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Lywydd Grŵp newydd Undeb y Myfyrwyr, Vanessa Liverpool o Gampws Llundain, a Llywydd Undeb Myfyrwyr Campws Abertawe, Liam Powell, i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau o'r Cyngor. Croesawodd hefyd Lywydd Undeb Myfyrwyr Campws Llambed, James Barrow, fel sylwedydd. | |
| 21.30<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO092). | |
| 21.31<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021 | CYMERADWYODD y Cynghorau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mawrth 2021 fel cofnod cywir (JCO093). | |
| 21.32<br>Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (JCO094). | |
| 21.33<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO095).<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd yn benodol at y canlynol:<br><br><u>Prifysgol De Cymru</u><br>Roedd cyfarfod cyntaf y Grŵp Datblygu wedi'i gynnal 6 Mai 2021. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar gynnydd gyda'r cyd-brosiectau a gyllidir gan CCAUC. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Louise Bright, yr Athro Mike Fernando a Barry Liles am eu gwaith caled ar ddatblygu'r prosiectau hyn.<br><br><u>Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC)</u><br>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gyfarfod diweddar CUC. | |
| 21.34<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 21.35<br>Dathliadau'r Deucanmlwyddiant | YSTYRIODD y Cyngor gynigion ar gyfer dathliadau'r deucanmlwyddiant yn 2022. (JCO097).<br><br>Nododd aelodau y byddai'r dathliadau'n canolbwyntio ar rôl y Brifysgol o ran llunio'r genedl a byddai'n coffáu sefydlu Coleg Dewi Sant, Llambed ar 12 Awst 1822 drwy osod y garreg sylfaen a nododd fan geni addysg uwch yng Nghymru. Byddai'r deucanmlwyddiant yn gyfle i ddathlu hanes, llwyddiannau a chyflawniadau'r Brifysgol a'i sefydliadau gwreiddiol dros y ddwy ganrif ddiwethaf gan nodi hefyd ei chyflawniadau cyfredol a'i dyheadau ar gyfer y dyfodol. Adroddodd yr Is-Ganghellor fod proses datblygu'r rhaglen digwyddiadau wedi cynnwys llywodraethwyr, staff, Undeb y Myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.  Cadarnhaodd fod staff yn ystyried datblygu cyhoeddiadau ar hanes, pensaernïaeth a'r casgliadau arbennig, a byddent hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd am gynadleddau digidol.<br><br>Canmolodd a CHYMERADWYODD aelodau'r cynigion, a oedd yn dathlu nid yn unig orffennol y Brifysgol ond ei dyfodol hefyd. Nodasant bwysigrwydd cysylltu â digwyddiadau cenedlaethol a hefyd dathlu yng Nghymru y cyswllt hanesyddol â Rhydychen. | |
| 21.37<br>Rheoli Risg | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng NGHOFNODION CYFYNGEDIG y cyfarfod. | |
| 21.38<br>Materion Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 12 Mai 2021 (JCO099).<br><br>Nododd aelodau gynnydd o ran recriwtio aelodau annibynnol newydd, gan nodi bod datblygiadau wedi'u llywio gan gynllun olyniaeth a dadansoddiad sgiliau. Nododd y Clerc fod ystod dda ac amrywiol o geisiadau wedi'i derbyn.  Byddai argymhellion ynghylch penodi yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Cynghorau ym mis Medi 2021.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhellion y Pwyllgor yn deillio o adolygiad o'r pwyllgorau sefydlog yng ngwanwyn 2021, fel y'i nodir yn JCO099. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 21.39<br>Diweddariad ar gynllun gweithredu Camm | YSTYRIODD y Cynghorau yr adroddiad diweddaru ar gynllun gweithredu Camm a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 12 Mai 2021 (JCO100).<br><br>Adroddodd y Clerc fod cynnydd da wedi'i wneud a bod parhau â'r gwaith yn ddibynnol ar rywfaint o'r gwaith datblygu ar draws y sector a oedd wedi'i ohirio. O ran ystyriaeth y Cynghorau o ddata yn ymwneud â diwylliant, nododd fod hyn bellach wedi'i drefnu i'w ystyried ym mis Medi 2021.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau y cynllun gweithredu a ddiweddarwyd. | |
| 21.40<br>Adolygiadau o Effeithiolrwydd Llywodraethu | DERBYNIODD y Cynghorau gynllun gweithredu yr Adolygiadau o Effeithiolrwydd Llywodraethu.<br>(JCO101).<br><br>Nododd y Cynghorau fod yr holl gamau gweithredu o'r Adolygiadau o Effeithiolrwydd Llywodraethu bellach wedi'u cwblhau ac felly cymeradwyasant yn ffurfiol fod y cynllun wedi'i gwblhau. | |
| 21.41<br>Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau o'r Cyngor | CYMERADWYODD y Cynghorau y Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau o'r Cyngor 2021/22 am gyfnod pellach o ddwy flynedd (JC0102). | |
| 21.42<br>Gweithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol | CYMERADWYODD y Cynghorau ddiwygiadau arfaethedig yn y weithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol (JCO103) i adlewyrchu trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am iechyd a diogelwch. | |
| 21.43<br>Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol | CYMERADWYODD y Cynghorau y Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol (JCO104).<br><br>Adroddodd CGAD y byddai'r datganiad yn cael ei gyhoeddi ar y wefan pan fyddai manylion cymhareb gyflogau wedi'u derbyn gan UCEA. | |
| 21.44<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau yr Adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd (JCO105). | |
| 21.45 | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad diweddaru Iechyd a Diogelwch (JCO106). | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad diweddaru Iechyd a Diogelwch | | |
| 21.46<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.47<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Medi 2021. | |